OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 870 (Cy. 117)

## PRIFFYRDD, CYMRU

# Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011 2012

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Offeryn Cadarnhau hwn yn cadarnhau Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011, a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych ar 25 Awst 2011. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer adeiladu pont dros aber Afon Clwyd yn Harbwr y Foryd, Y Rhyl.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 870 (Cy. 117 )

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011 2012

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | *15* | *Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym* | *28* | *Mawrth 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud yr offeryn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 106(3) o Ddeddf Priffyrdd 1980[(1)].

**Enw**

**1**. Enw'r offeryn hwn yw Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011 2012.Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu De Cymru yn unol â gofynion paragraffau 8(3) o Atodlen 8 a 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

**Cadarnhau'r Cynllun**

**2.** Mae Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011 (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cynllun") drwy hyn wedi ei gadarnhau heb addasiadau.

**Y Cynllun**

**3.** Mae'r Cynllun fel y'i cadarnhawyd wedi ei osod yn yr Atodlen i'r offeryn hwn ac mae copïau o'r Cynllun ynghyd â'r planiau sy'n mynd gydag ef wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac yn swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN.

(1) 1980 p.66. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru, yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1 , ac adran 162 o Ddeddf

Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

**Cychwyn**

**4.** Daw'r Cynllun yn weithredol ar y dyddiad y caiff hysbysiad ei fod wedi ei gadarnhau ei gyhoeddi gyntaf yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Priffyrdd 1980.

**FRANCES DUFFY**
Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

15 Mawrth 2012

**YR ATODLEN I OFFERYN CADARNHAU CYNLLUN CYNGOR SIR DDINBYCH (ADEILADU PONT CERDDED A BEICIO HARBWR Y FORYD) 2011 2012**

**Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011**

Mae Cyngor Sir Ddinbych (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor") yn gwneud y Cynllun hwn drwy arfer ei bwerau o dan Adran 106(3) o Ddeddf Priffyrdd 1980 a phob pŵer galluogi arall:-

1. Awdurdodir y Cyngor i adeiladu dros ddyfroedd mordwyol Afon Clwyd y bont a bennir yn yr Atodlen i'r Cynllun fel rhan o'r briffordd y mae'n bwriadu ei hadeiladu rhwng glan ogledd-ddwyreiniol a glan dde-ddwyreiniol aber Afon Clwyd yn Harbwr y Foryd, Y Rhyl.

2. Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011.

3. Mae'r Cynllun wedi ei wneud gyda chydsyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sef yr Awdurdod Priffyrdd Lleol ar gyfer glan dde-ddwyreiniol aber Afon Clwyd

YR ATODLEN I'R CYNLLUN

**PLANIAU A MANYLEB PONT CERDDED A BEICIO HARBWR Y FORYD**

Dangosir lleoliad a dyluniad cyffredinol y bont ar y planiau sydd â'r rhifau 15621/BR/PL/001 ac 15621/BR/PL/006 ac a farciwyd "Pont Trafnidiaeth Gynaliadwy Harbwr y Foryd".

**Pwyntiau cychwyn a therfynu**

O bwynt ar lan ogledd-ddwyreiniol aber Afon Clwyd wrth gyfeirnod grid OS 299621.14E, 380855.24N yn Sir Ddinbych i bwynt ar lan dde-ddwyreiniol aber Afon Clwyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy wrth gyfeirnod grid OS 299668.67E, 380798.80N. Cyfeirnod map yr Arolwg Ordnans SH98.

**Rhychwant**

Dau rychwantiad 32m ynghyd â phlatfform glanio canolog 4m ei hyd. Gellir codi pob rhychwantiad i fyny o gwmpas y pier canolog.

**Lled**

Mae lled Dec y Gogledd yn amrywio o 4m wrth gynhaliad y lan i 10.5m wrth gynhaliad y pier canolog. Mae Dec y De yn amrywio o 4m ei led wrth gynhaliad y lan i 10.5m ei led wrth gynhaliad y pier canolog. Mae'r bont yn cario cerddwyr a beicwyr.

**Uchdwr – Dec y De**

Mae Dec y De yn rhychwantu'r brif sianel fordwyol sydd yn 26m ei lled. Pan fydd y deciau ar gau, bydd uchdwr isaf o 3.00 metr ac uchdwr uchaf o 4.45 metr. Pan fo'r deciau ar agor, bydd uchdwr isaf o 15.25 o fetrau ac ni fydd cyfyngiad ar yr uchdwr uchaf. Mae'r holl uchderau uchdwr wedi eu seilio ar lefel y dŵr ar adeg llanw uchaf cymedrig gorllanw'r gwanwyn.

**Uchdwr - Dec y Gogledd**

Mae Dec y Gogledd yn rhychwantu ail sianel fordwyol gulach sy'n 13m ei lled. Pan fydd y deciau ar gau, bydd uchdwr isaf o 3.00 metr ac uchdwr uchaf o 4.45 metr. Pan fydd y deciau ar agor, bydd uchdwr isaf o15.25m ac ni fydd cyfyngiad ar yr uchdwr uchaf. Mae'r holl uchderau uchdwr wedi ei seilio ar lefel y dŵr ar adeg llanw uchaf cymedrig gorllanw'r gwanwyn.

**Dyfrffordd – Aber Afon Clwyd**

Mae'r brif sianel fordwyo ger y bont yn 26m ei lled. I fyny'r afon o'r bont mae'n ymledu i ffurfio'r Harbwr. I lawr yr afon o'r bont mae'r sianel yn 38m ei lled yn ei man culaf ar adeg llanw uchaf cymedrig. Mae pier pont canolog (y mae ei ddiamedr yn 8.4m) wedi ei leoli yn y sianel. Caiff gwely'r afon ei garthu er mwyn cynyddu croestoriad a chapasiti hydrolig y sianel fel bod brig y llanw a thrai ger y bont yn cael ei leihau.

**Gweithredu'r Bont**

Caiff y bont ei gweithredu o bell drwy system wifredig gan weithiwr a leolir yn y swyddfa teledu cylch cyfyng. Caiff y bont ei hagor ar gais (drwy radio VHF neu rif ffôn wedi ei neilltuo) a bydd defnyddwyr

cychod yn cael blaenoriaeth ar gerddwyr a beicwyr. Yn ystod misoedd brig yr haf bydd gofalwr wedi ei leoli ar y safle er mwyn sicrhau bod cerddwyr a beicwyr yn symud oddi ar y bont yn brydlon. Bydd system goleuadau traffig yn ei lle er mwyn rhoi gwybod i ddefnyddwyr cychod pa bryd y mae'r bont ar agor a pha bryd y mae ar gau ac a yw'n ddiogel iddynt fynd yn eu blaenau.

Os na fydd hi'n bosibl agor y bont am reswm penodol, bydd gweithredwr y bont yn cysylltu â llestrau drwy radio VHF. Bydd llestrau sy'n dod i mewn yn gallu dewis aros y tu hwnt i'r polyn pen sydd wedi ei leoli ar ddiwedd y wal gyfeirio neu chwilio am harbwr arall.

Bydd defnyddwyr lleol yr harbwr yn cael eu hysbysu am y gweithdrefnau a hysbysiad amdanynt yn cael ei ddyroddi i longwyr a rhoddir y manylion amdanynt yn y cyfnodolion morol pan fernir bod hynny'n briodol.

Rhoddwyd o dan sêl gyffredin y Cyngor ar 25 Awst 2011

Gosodwyd yma SÊL GYFFREDIN y CYNGOR ym mhresenoldeb

CADEIRYDD

Llofnodydd
Awdurdodedig